# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13:00 ar 16 MAI 2024, yn y Ganolfan Ddeialog, y Ganolfan Ddelweddu.**

Yn bresennol: Ms Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr); Ms Kate Eden; Ms Kylie Evans; yr Athro Simon Green; Mrs Ellen ap Gwynn; yr Athro Louise Marshall; Ms Rhuanedd Richards; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; Ms Jane Usherwood; Mr Bayanda Vundamina, Llywydd UMAber; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) (ar gyfer cofnod 66.2); Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg; Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; a Mr Daniel Taylor, Good Governance Improvement.

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Elain Gwynedd, Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA.

## 56. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1 . Croesawyd Daniel Taylor, Good Governance Improvement, fel arsylwr, a fyddai'n llywio gwaith yr Adolygiad Llywodraethu allanol sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

2. Gofynnodd yr aelodau am gael trafod y gofrestr risg mewn cyfarfod Cyngor yn y dyfodol, gan gynnwys y mater fel eitem i'w drafod. **[GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

3. Uwch Aelod Annibynnol
Penodwyd Rhuanedd Richards yn Ddirprwy Gadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor. Yn dilyn trafodaeth â'r Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Brifysgol ynglŷn â swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Dirprwy, cynigiwyd y byddai Rhuanedd Richards yn ymgymryd yn ffurfiol â swyddogaeth yr Uwch Aelod Annibynnol. Ceir amlinelliad o'r swyddogaeth yn Ordinhad 6: Cadeirydd y Cyngor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor.

4. Cyfarfod â'r Undebau Llafur
Mae'r Cadeirydd wedi cyfarfod â chynrychiolwyr yr Undebau Llafur. Cytunwyd yn y cyfarfod y byddai cyfarfod blynyddol yn cael ei drefnu.

## 57. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

## 58. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2024 a 26 Ebrill 2024 (COU2324-106).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**59. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2324-107).

Mae'r camau gweithredu erbyn mis Mai 2024 wedi'u cwblhau ac maent wedi'u cofnodi yn y tabl 'camau caeëdig' er cyflawnder. Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar y materion a oedd heb eu cyflawni.

<u>48.1.4 Penodi Canghellor</u>
Yn dilyn trafodaethau ynglŷn â Phwyllgor Enwebiadau ar gyfer y broses o recriwtio Canghellor, nodwyd achos o wrthdaro buddiannau, sy'n cael ei drin yn briodol. Er mwyn sicrhau proses deg a thryloyw, bydd aelod allanol yn cael ei wahodd i ymuno â'r Pwyllgor Enwebiadau. Mae'r dyddiadau'n cael eu cadarnhau a bydd y pwyllgor yn cael ei gynnull cyn gynted â phosibl.

<u>64.4.4 Gwybodaeth Cydraddoldeb, Amrywioldeb a Chynhwysiant</u>
Mae yna broblemau technegol o hyd o ran cael mynediad at systemau'r Brifysgol. Serch hynny, mae'n flaenoriaeth ac mae wedi'i chynnwys yn gam gweithredu yn y Cynllun Gweithredu ar Hil.

Darparwyd diweddariadau yn y papur ar gamau gweithredu i'w cwblhau yn y dyfodol.

54.19 <u>Pwyllgor Diswyddo</u>
Ystyriodd yr aelodau ddiweddariad ar y cynllun Diswyddo Gwirfoddol a'r amserlen gyfathrebu arfaethedig.

NODWYD

Nododd yr aelodau'r diweddariadau am y camau gweithredu agored a chaeëdig.

**60. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2324-108).

NODWYD

Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor pryd y cafodd materion eu cymeradwyo gan aelodau, neu gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.

**61. GOHEBIAETH**

1. <u>Amrywiad i Gynllun Ffioedd a Mynediad 2023/24 - 2024/25: Cymeradwyaeth</u>

   DERBYNIWYD

Gohebiaeth oddi wrth CCAUC yn ymwneud â’r Amrywiad i Gynllun Ffioedd a Mynediad 2023/24 - 2024/25 (COU2324-109) yn cadarnhau y bydd y ffi yn cynyddu i £9250 am y flwyddyn academaidd 2024-25.

**PENDERFYNWYD**

Nodwyd yr ohebiaeth a'r cynnwys.

**62. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

1 . <u>Adroddiad yr Is-Ganghellor</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2324-110).

NODWYD

1. Roedd tair prif ran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Cynhaliwyd cyflwyniadau i staff ar gampysau Penglais a Gogerddan. Cawsant eu ffrydio'n fyw, ac fe wnaeth cyfran dda o'r staff wrando ar y sesiwn yn bersonol a/neu ar-lein. Amlinellwyd y pedair ffrwd waith, gan gynnwys strwythurau'r cyfadrannau, yr arlwy academaidd, a strwythurau cymorth y gwasanaethau proffesiynol.

3. Mae'r tueddiadau recriwtio yn gadarnhaol, ond mae'r rhagdybiaethau’n parhau’n ochelgar ac nid ydynt wedi cael eu newid oherwydd anwadalwch y farchnad ryngwladol. Mae canlyniad y Pwyllgor Cynghori ar Ymfudo wedi’i gyhoeddi ac nid oes argymhelliad i newid y llwybr graddedigion.

4. Rhoddwyd diweddariad ar y prosesau recriwtio uwch aelodau o staff. Mae Cofrestrydd Academaidd newydd wedi cael ei phenodi. Bydd Cyfarwyddwr Masnachol Dros Dro yn canolbwyntio ar weithgareddau masnachol y brifysgol, gan gynnwys Canolfan y Celfyddydau, llety’r Brifysgol, a chynghori ar brosiect yr Hen Goleg. Trafododd yr aelodau y cynllun strategol ar gyfer y portffolio masnachol, gan gynnwys yr effaith a sut i’w integreiddio i weithgareddau academaidd a gweithgareddau’n ymwneud â’r myfyrwyr. Cadarnhawyd y bydd y Cyfarwyddwr Masnachol Dros Dro yn canolbwyntio ar wneud arbedion ac y bydd yn darparu dadansoddiad cost a budd ar wahanol agweddau ar y portffolio. Cynhelir trafodaethau â Gweithrediaeth y Brifysgol maes o law, yn unol â'r cerrig milltir y cytunwyd arnynt. Bydd y gwaith yn bwydo'n anuniongyrchol i'r cynlluniau gweithredu sy'n deillio o Strategaeth y Brifysgol. Bydd y Cyfarwyddwr Masnachol Dros Dro hefyd yn cyfrannu at y gwaith o ddiwygio cynllun busnes yr Hen Goleg, sy'n cael ei adolygu i sicrhau bod model busnes proffidiol a chynaliadwy yn ei le.

5. Bydd Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr yn adrodd i'r Is-Ganghellor nes i'r Prif Swyddog Gweithredu gael ei benodi. Mae cyfweliadau a phenodiadau yn mynd rhagddynt ar gyfer swyddi gwag Pennaeth Adran, a fydd yn benodiadau mewnol.

6. Pwysleisiwyd pwysigrwydd buddsoddi a thrawsnewid er mwyn sicrhau newid cadarnhaol yn wyneb y cynllun diswyddo gwirfoddol. Trafododd yr aelodau y cynllun cyfathrebu a sut y gallai staff ymgysylltu â'r broses, a chyfrannu ati.

7. Trafododd yr aelodau y broses o ymgysylltu yn allanol. Nododd swyddogion bod rhanddeiliaid allweddol yn cael eu hysbysu cyn rhannu gwybodaeth yn ehangach. Cafwyd ymateb cadarnhaol a chydymdeimladol, ac roedd llawer yn awyddus i gefnogi'r brifysgol.

8. Trafodwyd strwythur llywodraethu'r Hen Goleg, yn benodol er mwyn sicrhau bod pob mater yn cael ei ystyried ar y lefel briodol. Cafodd haen ychwanegol ei chynnwys yn y strwythur yn y gorffennol i sicrhau goruchwyliaeth briodol; cynhaliwyd archwiliadau mewnol, yn ogystal â phrosiectau penodol a sesiynau i ystyried materion mewn manylder. Pwysleisiodd yr aelodau yr angen i sicrhau bod y prosiect yn cael ei reoli a'i oruchwylio'n fanwl. Nododd swyddogion fod gwersi'n cael eu dysgu a bod craffu a herio priodol yn digwydd mewn amrywiol bwyllgorau. Cytunwyd mai’r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad sydd yn gyfrifol am oruchwylio a chraffu ar brosiect yr Hen Goleg cyn i’r Cyngor ei ystyried.

**PENDERFYNWYD**

9. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

2. TAR

DERBYNIWYD

Adroddiad llafar gan yr Is-Ganghellor.

NODWYD

1. Sefydlwyd AGA yn 2019, a chynhaliwyd arolwg cychwynnol gan Estyn yn 2023. Yn dilyn hynny cyflwynwyd cynllun gweithredu mewn ymateb i adroddiad Estyn. Cyhoeddodd y Bartneriaeth gynlluniau gwella, gan weithredu yn unol â hwy.

2. Cynhaliwyd y broses ail-achredu yn ystod gwanwyn 2024 ac fe hysbyswyd y Brifysgol am y canlyniad ar 16 Ebrill 2024. Roedd yr ymateb ym mis Tachwedd 2023 yn gadarnhaol, ond adroddodd y swyddogion bod y diffyg cynnydd ers mis Tachwedd 2023 wedi’i nodi fel pryder. Rhoddwyd cyfnod o absenoldeb o’r gwaith i'r Pennaeth Adran i ysgrifennu'r dogfennau ail-achredu, ac fe benodwyd Pennaeth Adran Dros Dro i arwain yn ei absenoldeb. Roedd y cynllun yn uchelgeisiol ac fe fyddai'n heriol i’w gyflawni. Amlinellwyd rhai meysydd risg a heriau i'r Cyngor, a nodwyd y byddai gwersi'n cael eu dysgu i sicrhau na fyddai hyn yn digwydd gyda phrosesau achredu neu ail-achredu eraill.

3. Trafododd yr aelodau arolygaeth academaidd a pha faterion y dylid eu huwchgyfeirio o fewn strwythurau mewnol y brifysgol i sicrhau'r lefel briodol o sicrwydd a chraffu.

4. Bydd yna effaith ar ddysgu cyfrwng Cymraeg a'r rhai sy'n astudio'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae sgyrsiau cadarnhaol yn cael eu cynnal â phrifysgolion eraill, ac mae swyddogion prifysgol yn cyfeirio myfyrwyr at y cwrs cymaint â phosibl, yn amodol ar ddewisiadau'r myfyrwyr. Bydd y cwrs yn dod i ben ym mis Awst 2024. Trafododd yr aelodau y drefn ar gyfer ail-ymgeisio a nodwyd y byddai modd ail-ymgeisio am y ddarpariaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai staff yn gadael y ddarpariaeth, ac ni fyddai modd dysgu'r cwrs ym mis Medi, felly byddai angen buddsoddi mewn tîm arall. O'r herwydd, byddai'r penderfyniad i ail-ymgeisio ai peidio yn un strategol. Mae yna oblygiadau cost i ddarparu'r cwrs, ond efallai y bydd y Brifysgol yn dymuno ymgeisio a dysgu'r cwrs oherwydd blaenoriaethau eraill, cymdeithasol.

5. Myfyriodd yr aelodau ar yr effaith ar enw da'r Brifysgol, a'r effaith ar y gadwyn gyflenwi ddysgu. Trafododd yr aelodau eu rôl wrth arolygu'r gwaith, ochr yn ochr â dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac ystyriwyd y gwersi a ddysgwyd. Trafodwyd llywodraethu academaidd, a'r berthynas rhwng y Senedd a'r Cyngor ar faterion academaidd.

6. Dylid trafod y Gofrestr Risg yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, gan ystyried yn benodol a oedd llywodraethu academaidd a'i gysylltiad â'r Cyngor yn briodol ac yn addas i'r diben. Nodwyd bod adolygiad llywodraethu ar y gweill a bod llywodraethu academaidd yn faes ffocws allweddol ar gyfer yr adolygiad. Croesawodd yr aelodau y cyfle i adolygu sut y gall yr is-bwyllgorau weithredu'n fwyaf effeithiol.

**PENDERFYNWYD**

7. Nodwyd yr adroddiad.

## 63. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

1 . Adroddiad gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (COU2324-111)

NODWYD

1. Llongyfarchwyd Bayanda Vundamina ac Elain Gwynedd ar gael eu hailethol yn swyddogion sabothol.

2. Trafododd swyddogion Undeb y Myfyrwyr eu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diweddar, a gafodd y lefelau uchaf o ymgysylltiad ar draws Cymru. Cafodd polisïau newydd eu hystyried a'u cymeradwyo, yn amrywio o gynrychiolwyr gwirfoddol yn Senedd yr Undeb, i wasanaethau golchdy am ddim i breswylwyr amser-llawn, a diwygiadau i is-ddeddfau mewn perthynas â chymhwysedd i sefyll am etholiadau.

3. Amlygwyd gweithgareddau allweddol, megis trafodaethau ynglŷn â lleihau nifer y swyddogion cyfadran o chwech i dri; a gweithio gyda'r Gwasanaethau Masnachol ar hyfywedd agor Starbucks ar y campws.

4. Cynhaliwyd yr Wythnos Fyd-eang yn ddiweddar, gyda dros 100 o fyfyrwyr rhyngwladol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Gweinodd y Neuadd Fwyd amrywiaeth o fwyd yn seiliedig ar y gwledydd a gynrychiolir yn y Brifysgol.

UMCA

5. Codwyd £3000 ar gyfer DPJ a’r Wish Foundation yn ystod yr wythnos Codi a Rhoddi.

6. Mae’r trefniadau ar gyfer dathliadau hanner can mlwyddiant UMCA wedi'u cadarnhau ar gyfer 15 Mehefin. Estynnir croeso i gyn-fyfyrwyr dros y penwythnos a bydd modd iddynt fwynhau teithiau tywys o amgylch neuadd breswyl Pantycelyn; digwyddiadau i drafod a deall hanes UMCA; a bydd bandiau’n cael eu gwahodd i berfformio ar nos Sadwrn i ddiddanu'r gwesteion.

7. Gwelwyd cynnydd yn y niferoedd sy’n manteisio ar y sesiynau Dysgwyr Cymraeg, yn enwedig myfyrwyr rhyngwladol sy'n dysgu Cymraeg.

8. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg a’r cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg ar eu cyrsiau.

9. Diolchwyd i Bayanda Vundamina ac Elain Gwynedd am eu cyfraniadau i'r Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf.

**PENDERFYNWYD**

10. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

2. Erthyglau Cymdeithasu Undeb y Myfyrwyr

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Trish McGrath, Prif Swyddog Gweithredol Undeb y Myfyrwyr a Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (COU2324-112)

NODWYD

1. Cafodd y newidiadau a gynigiwyd eu cymeradwyo gan gworwm yng Nghyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol Undeb y Myfyrwyr ar 20 Chwefror 2023 a 4 Mawrth 2024, ac fe’u cadarnhawyd gan Fwrdd Ymddiriedolwyr Undeb y Myfyrwyr ar 20 Ebrill 2023 a 25 Ebrill 2024.

2. Mae'r newidiadau yn cynnwys diwygio'r iaith er mwyn sicrhau ei bod yn niwtral o ran rhywedd; dileu cyfeiriadau at y Pwyllgor Gwaith, sydd heb fod yn weithredol ers sawl blwyddyn; newid enw Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth / Undeb y Myfyrwyr i Undeb Aberystwyth; a newid y rhifau a'r fformatio i’w wneud yn haws i’w ddarllen ac er cysondeb.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwywyd Cyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr, yn amodol ar gywiro'r enw ar dudalen 3 y ddogfen.

**64. MATERION ARIANNOL**

1 . Diweddariad ar y Cyfrifon Rheoli – diwedd y Mis/Chwarter

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfwrwyddwr Cyllid a Chynllunio, Mrs Rhian Linehan, Partner Busnes Cyllid, a Mr Stephen Harrison, Partner Busnes Cyllid (COU2324-113).

NODWYD

1. Mae'r amrywiannau a'r costau a nodwyd yn flaenorol yn dal yn berthnasol ac mae'r sefyllfa diwedd blwyddyn a ragwelir yn parhau i fod ar ddiffyg o £5.8m.

2. Mae arbedion o £7.3m wedi'u nodi hyd yma, ac mae angen cynnal y ffocws i sicrhau bod yr arbedion hyn yn cael eu cyflawni. Mae costau'r gyllideb ynni wedi gostwng i £300,000, yn sgil camau ychwanegol a gymerwyd i liniaru'r costau. Mae yna angen brys o hyd i ganfod tri man ar gampws y Brifysgol lle mae dŵr yn gollwng.

3. Mae'r gweddillion arian parod yn parhau i fod o dan bwysau ac mae gwaith i wella'r sefyllfa arian parod waelodol yn mynd rhagddo ac mae'n parhau'n flaenoriaeth frys; mae'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn monitro'r sefyllfa yn agos.

4. Trafododd yr aelodau y fferm a'r risgiau a amlygwyd yng nghyfarfodydd y Cyngor ac amrywiol bwyllgorau eraill. Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi yn cynnal adolygiad o'r fferm ac, er bod y materion yn rhai gweithredol, rhoddir cyflwyniad i'r Cyngor ar y risgiau a'r camau lliniaru mewn cyfarfod yn y dyfodol. **[GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil ac Arloesi ac Ysgrifennydd y Brifysgol].

**PENDERFYNWYD**

5. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

2. Cylch Cynllunio a Chyllideb 2024/2025 - diweddariad

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (COU2324-114).

NODWYD

1. Mae'r cyd-destun ariannol ar gyfer cylch cynllunio a chyllidebu 2024-25 yn heriol, gyda sefydliadau ledled y sector yn adrodd diffyg ar gyfer 2022-23. Rhoddwyd amlinelliad i'r Cyngor o'r heriau strwythurol sy'n wynebu sefydliadau Addysg Uwch, ac fe nodwyd yr heriau hynny.

2. Mae'r gweddillion arian parod dan bwysau o ganlyniad i fasnachu mewn diffyg am sawl blwyddyn yn olynol ac mae'r sefyllfa'n cael ei rheoli'n ofalus gan y tîm Cyllid.

3. Mae gwaith modelu a wnaed gan y tîm Cyllid yn dangos y sefyllfa yn y dyfodol, yn seiliedig ar y rhagolwg presennol o'r niferoedd o fyfyrwyr a dderbynnir. Mae'r adroddiadau a'r rhagolygon ynghylch denu myfyrwyr cartref yn gadarnhaol, ond mae denu myfyrwyr rhyngwladol yn heriol a gallai hyn yrru ymddygiad y farchnad yn ystod y Clirio.

4. O fewn y datganiad Sicrwydd a Chynaliadwyedd a gytunwyd, mae'r Brifysgol wedi rhagweld £3m o ddiffyg ar gyfer 24/25 sy'n cael ei yrru yn bennaf gan ofynion cyfamod yr Adnodd Credyd Cylchdroi newydd. I gyrraedd y gyllideb hon i leihau'r diffyg, bydd angen £9.5m drwy arbedion a/neu gynyddu incwm er mwyn cyrraedd y nod lle y mae £3m o ddiffyg yn y gyllideb. Gydag incwm gwastad bydd angen i'r Brifysgol ganfod a chyflawni o leiaf £9.5m o arbedion yn 24/25 a £18.3m erbyn 25/26.

5. Trafododd yr aelodau y diffyg a ragwelir fel canran o incwm, a lefel y gwarged sydd ei angen i gyflawni strategaeth y Brifysgol. Amlinellodd swyddogion gynlluniau i amrywio'r ffrydiau incwm, a'r angen i weithio'n wahanol er mwyn gallu cyflawni'r swm o arbedion sydd eu hangen. Mae'r mannau masnachu fel Canolfan y Celfyddydau, y Gwasanaethau Masnachol, y Preswylfeydd a'r Ffermydd i gyd yn cael eu hadolygu er mwyn dod o hyd i arbedion.

6. Cafodd yr aelodau ddiweddariad ar y rhaglen drawsnewid a'r arweinwyr gweithredol ar gyfer pob ffrwd waith. Lle bo'n briodol, byddai prosiectau o bwys yn cael eu hadrodd i'r Cyngor drwy'r pwyllgorau i sicrhau goruchwyliaeth a chraffu priodol.

7. Yn rhan o'r broses o gyflawni arbedion bydd yna gostau newid, yng nghyswllt rhwymedigaethau contractau, cyn gweld arbedion. Nid yw manylion na maint y costau yn hysbys ar hyn o bryd.

8. Ystyriwyd penderfyniadau a yrrir gan werthoedd, a'r angen i ddiogelu profiad y myfyrwyr, gan sicrhau ar yr un pryd bod pwysigrwydd y mater yn cael ei gyfleu'n briodol yn y naratif.

9. Myfyriodd aelodau'r Cyngor ar eu disgwyliadau, gan gydnabod y byddai'r llwythi gwaith yn heriol, yn enwedig tra bydd y rhaglen drawsnewid gael ei gweithredu a'i hymwreiddio. Nododd yr aelodau yr angen i graffu ac ystyried pa faterion allai fod o ganlyniad i newid, a pha rai allai fod o ganlyniad i faterion strwythurol. Dylai hyn gael ei fonitro'n barhaus gan yr aelodau a'i drafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, yn ôl yr angen.

**PENDERFYNWYD**

10. Cymeradwywyd yr argymhellion.

3. <u>Perfformiad Cronfeydd Gwaddol a Chronfeydd Buddsoddi eraill</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2324-115).

NODWYD

1. Yn ystod cyfarfod mis Mai 2023, nad oedd y portffolio cyfredol yn cynhyrchu'r 2% o incwm yr oedd ei angen ar y Brifysgol i gynorthwyo i ariannu ysgoloriaethau/bwrsariaethau, sydd felly'n gadael diffyg yn y gyllideb.

2. O ganlyniad i'r strategaeth a'r trafodaethau polisi sydd ar y gweill, ni weithredwyd unrhyw drafodion masnachol, yn unol â'r strategaeth newydd, ac mae'r incwm a gynhyrchir yn annhebygol o gyflawni'r gyllideb ar gyfer 23/24. I gyflawni'r incwm sydd ei angen ar y Brifysgol o'r buddsoddiadau, argymhellwyd bod y Brifysgol yn cadw'r arian parod a gafwyd ar gyfer un gronfa waddol er mwyn osgoi costau masnachu.

3. Mae'r Brifysgol wedi gwario £9m o'r £10m a gytunwyd ar gyfer prosiect yr Hen Goleg. Bwriedir defnyddio'r £1m olaf ym mis Awst neu fis Medi 2024.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwywyd yr argymhelliad.

4. <u>Adolygu'r Polisi Buddsoddiadau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2324-116).

NODWYD

1. Mae'r polisi diwygiedig, a'r trafodaethau a gafwyd yn y Pwyllgor Buddsoddiadau, wedi pwysleisio ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chorfforaethol (ESG). Mae swyddogion yn gweithio gyda Rheolwyr Buddsoddi a chronfeydd sy'n cyd-fynd â'r polisi i sicrhau bod y daliadau'n cydymffurfio â'r polisi cymaint â phosib.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwywyd y Polisi Buddsoddiadau, yn amodol ar gael eglurhad pellach ar y targed incwm blynyddol ar dudalen 4, trwy Gadeirydd y Cyngor.

**65. MATERION LLYWODRAETHU**

Gadawodd Ellen ap Gwynn a Jane Usherwood y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

1 . <u>Aelodaeth y Cyngor</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad llafar gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg.

NODWYD

1. Penodwyd Goodson Thomas i ymgymryd â phroses chwilio ar ran y Cyngor. Cynhaliodd y Pwyllgor Enwebiadau gyfweliadau dros gyfnod o ddeuddydd, ac

roedd un cyfweliad ar ôl i’w gynnal. Bydd y Pwyllgor Enwebiadau yn cynnull i ystyried yr ymgeiswyr ac yn gwneud argymhelliad ffurfiol i'r Cyngor.

2. Nodwyd bod aelodau sydd â sgiliau a chymwysterau ym meysydd cyllid, archwilio a buddsoddi yn flaenoriaeth, a gofynnwyd i Goodson Thomas sicrhau carfan amrywiol o ymgeiswyr, yn enwedig ymgeiswyr o grwpiau ethnig lleiafrifol.

3. Rhannwyd adroddiad cydraddoldeb dienw â'r Pwyllgor, yn dangos bod y ceisiadau'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y meysydd blaenoriaeth a bod yr ymgeiswyr yn amrywiol o ran hil, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran.

**PENDERFYNWYD**

4. Nododd yr aelodau y diweddariad a'r amserlen a ragwelwyd.

Dychwelodd Ellen ap Gwynn a Jane Usherwood i'r cyfarfod.

2. <u>Cyfarfodydd blynyddol ag aelodau'r Cyngor: Adborth a chamau gweithredu</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (COU2324-117).

NODWYD

1. Yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2024, cynhaliodd Cadeirydd y Cyngor gyfarfodydd â phob aelod o'r Cyngor i fyfyrio ar y flwyddyn a aeth heibio ac i edrych tua’r dyfodol ar rôl Cyngor y Brifysgol yn y cyfnod nesaf.

2. Byddai'r materion yn cael eu nodi gan Good Governance Improvement, sy'n ymgymryd â phroses yr Adolygiad Llywodraethu, ac yn cael eu hystyried gan bwyllgorau yn y dyfodol, fel y bo'n briodol.

**PENDERFYNWYD**

3. Nododd yr aelodau yr adroddiad a'r canfyddiadau cyfunol.

3. <u>Dysgu Cymraeg: Trosglwyddo darpariaeth o Gyngor Sir Gaerfyrddin i Brifysgol Aberystwyth</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Anika Lloyd, Pennaeth Dysgu Cymraeg (Dros Dro) a Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2324-122).

Nododd y Cadeirydd wrthdaro buddiannau posibl fel Cadeirydd Fforwm Strategol Sir Gaerfyrddin. Rhuanedd Richards, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor, gadeiriodd yr eitem.

NODWYD

1. Nododd yr aelodau y cais gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnig y ddarpariaeth yn Sir Gaerfyrddin, a'r cyllid allanol a oedd ar gael i’w ddarparu.

2. Mae’r trafodaethau yn eu camau olaf, a dylid trafod a chytuno ar ddyddiad trosglwyddo gyda Chadeirydd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwywyd yr argymhelliad mewn egwyddor, gan gynnwys y defnydd o Sêl y Brifysgol; i'w lofnodi ar adeg briodol, fel yr argymhellwyd gan Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg.

**66. YSTADAU, CYFLEUSTERAU A PHRESWYLFEYDD**

1 . Addasu Cyfamod Cyfyngu

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ms Andrea James, Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd (COU2324-118)

NODWYD

1. Roedd datblygwr eiddo lleol wedi cysylltu â'r Brifysgol ynghylch cael gwared ar gyfamod cyfyngu sy'n effeithio ar Brynderw, y Buarth, a elwid gynt yn Neuadd Breswyl Brynderw.

2. Mae'r datblygiad arfaethedig yn annhebygol o effeithio'n sylweddol ar yr amwynderau a ddefnyddir gan yr Ysgol Gelf, gan liniaru'r pryderon ynglŷn â cholli amwynderau.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwywyd addasu'r cyfamod cyfyngu.

2. Yr Hen Goleg

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); a Jim O'Rourke, Rheolwr y Prosiect (COU2324-119).

NODWYD

1. Mae'r cynnydd yn parhau ar y safle. Mae'r gwaith ar y maes parcio wedi'i gwblhau ac mae'n aros am gysylltiad trydan a cham olaf y plannu a'r hadu. Y prosiect nesaf fydd tynnu'r sgaffaldau o du ôl y filâu ac o ochr ogleddol yr Hen Goleg i ddechrau'r gwaith cloddio a gosod pyst i adeiladu sylfeini'r atriwm newydd dros fisoedd yr haf.

2. Mae gwaith y prif gontractwr y tu ôl i'r amserlen oherwydd yr oedi wrth bennu is-gontractwyr. Mae'r trafodaethau mewn perthynas ag ardal i'r elusen ieuenctid Area 43 wedi'u datrys, gyda chynnydd i'r cyllid fel bod modd symud ymlaen.

3. Mae Elfen yn bwrw ymlaen â'r gwaith ar y brand gweledol newydd a chyfleoedd enwi ar gyfer mannau penodol o fewn yr adeilad. Cynhelir gweithdai i ymgysylltu â rhanddeiliaid a bydd y canlyniadau'n cael eu hystyried gan Weithrediaeth y Brifysgol.

4. Nid yw taliad WEFO wedi'i dod i law eto ac mae pwysau costau yn parhau. Mae'r gwaith dylunio ar gyfer ystafelloedd gwely Cambria wedi'i ohirio nes y ceir

sicrwydd pellach ynglŷn â chostau cwblhau'r Hen Goleg. Fodd bynnag, bydd cwblhau ystafelloedd gwely Cambria yn hanfodol ar gyfer sicrhau gwesty llwyddiannus a phroffidiol.

5. Mae’r trafodaethau'n parhau gyda CThEM yng nghyswllt cytundeb TAW newydd ac mae swyddogion yn aros am y gwaith papur i gadarnhau cytundebau sefydledig.

6. Bydd papur yn cael ei gyflwyno i Weithrediaeth y Brifysgol ar roddion dyngarol a'r cynllun cyfathrebu ar gyfer negeseuon yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

7. Nododd yr aelodau yr adroddiad a'r sefyllfa ddiweddaraf.

**67. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2324-120);

**PENDERFYNWYD**

2. Cyflwynwyd cynnwys yr adroddiadau er gwybodaeth. Dylid trafod y gofrestr risg yng nghyfarfod nesaf y Cyngor [**GWEITHRED**: Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg].

**68. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys cofnodion is-bwyllgorau’r Cyngor (COU2324-121):

NODWYD

Yr adroddiadau a ddaeth o’r is-bwyllgorau.

1. Cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i sicrhau bod aelodau'r pwyllgor yn gysurus bod y gofrestr risg yn mynd i’r afael â chyd-destun presennol y brifysgol, yn enwedig sicrhau cydberthynas rhwng y fframwaith risg a'r cynllun archwilio mewnol.

2. Gofynnodd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad am ddiweddariad ar y Strategaeth Ystadau oherwydd bod y costau cynnal a chadw wedi newid. Bydd diweddariad ar y strategaeth Ystadau yn cael ei ddarparu yng nghyfarfodydd nesaf y Pwyllgor A&Ph a’r Cyngor.

3. Trafododd aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant sut y gallent gefnogi a chraffu ar elfennau o’r trawsnewid, gan sicrhau ffiniau priodol rhwng llywodraethu a rheoli.

**69. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Llun, 8 Gorffennaf 2024.

Bydd Good Governance Improvement yn cynnal cyfarfodydd ag aelodau'r Cyngor dros yr wythnosau nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:57.